


DAFYDD, ROBERT (1747 - 1834), 'Robert Dafydd, Brynengan,' pregethwr gyda'r Methodistiaid Calfinaidd, a gwehydd



Enw: Robert Dafydd
Dyddiad geni: 1747
Dyddiad marw: 1834
Rhiant: Dafydd Prichard
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: pregethwr gyda'r Methodistiaid Calfinaidd, a gwehydd
Maes gweithgaredd: Diwydiant a Busnes; Crefydd
Awdur: Robert Thomas Jenkins

Ganwyd yng Nghwmbychan, Nanmor, yn fab i Ddafydd Prichard, gwehydd. Tua'r 21 oed argyhoeddwyd ef dan bregeth **Siôn Robert Lewis** yr almanaciwr, ac aeth i'r ysgol gylchynol a gedwid gan **Robert Jones** (Rhoslan) ym Meddgelert. Symudodd i weithio ym mhlwyf Llanyby; priododd, ac aeth i fyw yn Nhyddyn Ruffydd. Yr oedd yn un o dystion gweithred gyntaf (1772) capel Brynengan, canolfan Methodistiaeth Eifionydd, a dechreuodd bregethu yn 1773. Bu farw 17 Ebrill 1834 yn nhŷ-capel Brynengan, lle'r oedd un o'i feibion yn byw. Yr oedd yn gawr o ddyd o ran ei gorff, ac yn hynod iawn am blaendra a gerwindeb ei ddywediadau.

Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Ffynonellau

Henry Hughes, *Robert Dafydd, Brynengan; ei hanes, a'i hynodion, ynghyda hanes eglwys hynafol ac enwog Brynengan, gyda darluniau o'r gwrthrych ac o gafel Brynengan* (Caernarfon 1895)

Darllen Pellach

J. Morgan Jones, W. Morgan, *Y Tadau Methodistiaid (1895-1897)*, ii, tt.68-75

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734314

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>



Jenkins, R. T., (1953). DAFYDD, ROBERT (1747 - 1834), 'Robert Dafydd, Brynengan,' pregethwr gyda'r Methodistiaid Calфинаidd, a gwehydd. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 9 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-DAFY-ROB-1747>

Bywgraffiadur

Preifatrwydd a Chwci
Hawffraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Yn ddiwedd
Llywodraeth Cymru
Supported by
Welsh Government